

ADRODDIADAU BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD MAIR ROWLANDS AR GYFER 2012/13

Bwriad yr Adroddiad Blynyddol gan yr Aelod Etholedig yw gwella cyfathrebu rhwng Aelod Etholedig a'r cyhoedd, gan gyflwyno gwybodaeth ffeithiol i unigolion o'r ward.

Rôl a chyfrifoldebau – Arwain y gymuned a cynrychioli buddiannau'r gymuned yn y Cyngor. Llywodraethu Corfforaethol drwy fynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, pwyllgorau craffu a phwyllgorau eraill. Cynrychioli'r cyngor ar gyrrff allanol. Hefyd wedi fy mhenodi yn Bencampwr Llais Plant a Phobl Ifanc Gwynedd.

Aelodaeth Prif Bwyllgorau/Pwyllgorau Ychwanegol

Cyngor Llawn	Pwyllgor Rhiantu Corfforaethol
Pwyllgor Craffu Corfforaethol	Tîm Prosiect Bangor
Pwyllgor Iaith	Grŵp Cyswilt Prifysgol Bangor
Pwyllgor Ardal Arfon	Llywodraethwyr Ysgol Cae Top a Friars

Prif Bwyllgorau

Cyfarfodydd	Presennol	Absennol	Ymddiheuriad
20	17	0	3

Canran Presenoldeb mewn prif Bwyllgorau = 85%

Dysgu a datblygu—Sesiynau Hyfforddiant Cyngor a fynychwyd

- 1 Tachwedd 2012 – Hyfforddiant Ipad
- 28 Tachwedd 2012 – Rhiantu Corfforaethol
- 9 Ionawr 2013 – Hyfforddiant Addysg
- 10 Ebrill 2013 – Data Perfformiad Awdurdod ac Ysgolion a Sesiwn ar Lywodraethu Ysgolion
- 9 Mai 2012 – Anwytho Aelodau Newydd
- 10 Mai 2012 – Anwytho
- 23 Mai 2012 – Cyflwyniad i Gynllunio
- 31 Mai 2012 – Pwyllgor Craffu Corfforaethol
- 19 Medi 2012 – Dulliau holi ar gyfer Craffu

Cyfanswm mewn oriau yw 33.5 awr

Seminarau, Cynadleddau a Hyfforddiant Ychwanegol

- 29 Tachwedd 2012 – Fy rôl fel Llywodraethwr
- 4 Chwefror 2013 - Seminar i aelodau - Sefyllfa Ariannol y Cyngor a'r strategaeth arianno arfaethedig am y 4 blynedd nesaf
- 22 Chwefror 2013 – Cynhadledd Prifysgol Bangor a Hunaniaeth 'Cynaliadwyedd a'r Gymraeg'
- 27 Chwefror - Hyfforddiant Gwybodaeth am y Maes Tai - Eich Cyfrifoldebau Chi
- 15 Mawrth 2013 – Hyfforddiant Gweithredu'n Lleol o ran yr Iaith Gymraeg
- 20 Mawrth 2013 – Seminar i Aelodau- Canlyniadau'r Cyfrifiad ar yr iaith Gymraeg
- 22 Mawrth – Cynhadledd Hunaniaith - Dyfodol Cymunedau Cymraeg

Prosiectau mawr

Problemau Traffig a diogelwch ar Ffordd Ffriddoedd

Roedd nifer o drigolion yn pryderu am ddiogelwch ar Ffordd Ffriddoedd yn enwedig ar adegau prysur. Trefnwyd cyfarfod gan Undeb Myfyrwyr Bangor nol yn mis Rhagfyr gyda chynrychiolaeth o'r brifysgol y Cyngor Dinas a minnau i drafod y mater. Mae'r problemau yma hefyd yn effeithio ar yr ysgolion lleol, Coleg Menai a thrigolion ac yn fater pwysig iawn. Ers hynny mae cyfarfodydd wedi eu trefnu i drafod sut i wella mesurau diogelwch er mwyn ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr, beicwyr a cheir. Rydym nawr yn aros i'r Cyngor gwblhau archwiliad traffig i lunio'r ffordd ymlaen.

Rhandiroedd i Fangor Uchaf

Mae galw wedi bod am randoedd yn Mangor ers nifer o flynyddoedd, ac mae wedi bod yn anodd iawn cael gafael ar safle addas. Rydw i wedi bod yn cefnogi'r ymgyrch i gael rhandiroedd yma ym Mangor Uchaf ac wedi bod yn helpu'r grŵp Tyfu, sydd tu ôl i'r fenter. Rwyf wedi trafod y mater efo swyddogion Cyngor Gwynedd ac mae ymweliad i weld safleoedd posibl wedi bod gyda swyddogion, rhai o gynghorwyr Bangor a'r grŵp Tyfu, ac nawr mae gofyn i Tyfu greu cynllun busnes. Mi fyddai cael rhandiroedd yn cefnogi'r pwyslais ar i bobl fyw yn iach ac yn helpu'r amgylchedd a sicrhau cyflenwad o fwyd lleol. Byddai hefyd yn dod â phobl at ei gilydd ar lefel gydweithredol ac yn hwb i'r gymuned ym Mangor Uchaf.

Llwybr aml-feddiannaeth a'r Wal ar Ffordd Caergybi

Dros yr wythnosau diwethaf mae gwaith wedi cael ei wneud i'r pafin ar Ffordd Caergybi i'w wneud yn llwybr aml ddefnydd i gerddwyr a beicwyr, gyda wal yn cael ei adeiladu yn lle'r ffens oedd yna'n flaenorol. Mae'r gwaith wedi cael ei wneud heb ymgynghori na thrafod gyda thrigolion, a Chynghorwyr. Mae nifer yn pryderu nad yw'r droedffordd newydd yn ddigon llydan i feicwyr a cherddwyr o ystyried nifer y cerddwyr sy'n cerdded yno. Mae pobl hefyd yn anhapus iawn am y wal sydd wedi llwyddo i guddio'r olygfa hardd dros y Fenai. Rwyf wedi sicrhau bod y mater hwn yn derbyn digonedd o sylw. Mae cyfarfodydd wedi cael eu trefnu gyda Swyddogion Gwynedd, Beicio Bangor a'r Brifysgol. Rwyfhefyd wedi gofyn cwestiynau i'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd ar Gyngor Gwynedd ynglŷn a'r mater. Rwyf nawr yn ymgyrchu i gael cynllun ymgynghori gwell mewn lle, a llwybr beicio priodol yn mynd o Fangor Uchaf i Bont Menai a fydd o fudd i dwristiaeth a i deithio cynaliadwy yn lleol.

Sicrhau Bangor Uchaf glân a thaclus

Wrth siarad â thrigolion a myfyrwyr yn ystod cyfnod yr etholiad daeth i'r amlwg bod problemau gyda sbwriel yn pentyrru a gorlifo yn y ward a bod yna broblemau cyfathrebu ynglŷn â dyddiau casglu a gwahanol elfennau o'r gwastraff. Yn dilyn y pryderon yma mae nifer o gyfarfodydd a teithiau o amgylch y ward gyda swyddogion wedi bod i drafod y sefyllfa. Rwyf hefyd wedi trafod syniadau gyda swyddog Trefi Taclus y cyngor a gyda'r Brifysgol ynglŷn â ymgyrchoedd ar gyfer y dyfodol.

Menter Iaith i Fangor

Mae rhai o drigolion Bangor y Cynghorydd Elin Walker Jones a minnau wedi cynnal nifer o gyfarfodydd i drafod cychwyn Menter Iaith ym Mangor, gan obeithio hyrwyddo a chynyddu defnydd y Gymraeg yn y ddinas. Ein nod fydd cheisio apelio at gymunedau amrywiol Bangor a'u hannog i ddefnyddio'r iaith yn gyson gan ymfalchïo hefyd yn ein diwylliant a'n hetifeddiaeth. Mae'n ddyddiau cynnar ond gobeithiwn ddenu cyllid a mwy o gefnogaeth i'r cynllun yn y dyfodol.

Gweithgarwch lleol

- Yn dilyn cwynion gan etholwyr yn ystod yr etholiad ynglŷn a problemau priffyrdd, trefnwyd sawl ymweliad ar draws Bangor Uchaf gyda Swyddogion Priffyrdd ac Aelod Cabinet Gwynedd i dynnu sylw at gyflwr gwael y ffyrdd a'r palmentydd, (27 Mehefin 2012 /23 Awst/Ionawr). ers hynny mae rhan o'r gwaith wedi'u cwblhau.
- Yn dilyn sylwadau gan drigolion ynglŷn a'r gorchymyn gwasgaru ar rannau o Fangor gan yr Heddlu a problemau ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar Allt Glanrafon, trefnwyd cyfarfod a taith o amgylch y ward (2 Tachwedd 2012) gyda'r Heddwes Cymunedol newydd yn y ward i drafod diogelwch ym Mangor Uchaf ac yn arbennig cael camera CCTV ar Allt Glanrafon. Trefnwyd taith arall gyda dau heddwes cymunedol y ward yn mis Ionawr i gael diweddariad a mynd o amgylch busnesau Bangor Uchaf. Mae'r camera CCTV yn mynd i gael ei osod yn fuan iawn.
- 1 Chwefror 2013 – Cymhorthfa efo'r Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Arfon Hywel Williams i drigolion lleol.
- 12 Chwefror – Taith o amgylch y ward gyda Prif Swyddog Tai Sirol i dynnu sylw at y Tai Aml-feddiannaeth oedd yn creu problemau i'r ardal. Nifer o yn pryderu ynglŷn fod cyflwr y tai a'r gerddi yn effeithio ar fwynderau'r ardal. Cyfarfodydd dilynol wedi eu cynnal ac wedi gwneud sylwadau ar y cynllun datblygu lleol ar y mater o dai aml-feddiannaeth.